CYSUR: BWRDD DIOGELU PLANT CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

‘Y Cymorth lawn ar yr Adeg lawn’
i Blant, Pobl Ifanc a’u Teuluoedd

Dogfen Trothwyau Rhanbarthol & Chymhwystra ar gyfer Cymorth

CYDWEITHREDIAD YNG NGHANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Cynnwys:

	Tud.
Rhagarweiniad	3
‘Sgrin Wynt’ Cymorth ar gyfer Llesiant	4
Cymorth Cyffredinol	5
Cymorth Uwch	6-7
Cymorth wedi’i Dargedu	8-9
Asesu ar gyfer Gofal a Chymorth	10-11
Cymorth Amddiffynnol	12-13

Atodiadau:

	Tud.
Atodiad 1 – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Meini Prawf Cymhwysedd ar gyfer Gofal a Chymorth	14
Atodiad 2 – Triongl Fframwaith Asesu	15
Atodiad 3 – Ymchwil PNPau Iechyd Cyhoeddus Cymru	16
Atodiad 4 – Trefniadau Lleol	17

Geirfa

PNPau – Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs)
NEET – Dim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

Fersiwn	Dyddiad Adolygu	Y Broses Ymgynghori	Perchennog	Dyddiad pryd y Cymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol	Dyddiad Adolygu
F1	5 Rhagfyr 2016	Diwrnod Gwaith Strategol Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau	Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau	Amh.	Amh.
F2	12 Ionawr 2017	Ymgynghoriad Rhithio a thrafodaeth yn y Bwrdd Gweithredol		Amh.	Amh.
F3	26 Ionawr 2017	Diwrnod Gwaith Ymarferwyr		Amh.	Amh.
F4	15 Chwefror 2017	Sesiynau ymgynghori â Phlant, Pobl Ifanc a Theuluoedd		27 Ebrill 2017	Ebrill 2018

Rhagarweiniad

Mae gan bawb hawl i lesiant ac mae pawb yn gyfrifol am ei lesiant ei hun, ond mae angen cymorth ychwanegol ar rai pobl i gael hynny, gan roi llais cryfach a mwy o reolaeth i bobl dros eu bywydau. Ystyr llesiant yw bod rhywun yn hapus, yn iach ac yn gysurus yn ei fywyd a'r hyn mae'n ei wneud.

Egwyddorion sylfaenol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yw:

- Bydd y Ddeddf yn helpu i sicrhau **llesiant** y rhai y mae angen gofal a chymorth
- Mae'r system newydd yn canolbwyntio ar **bobl**, ac yn rhoi cyfartal iddynt o ran y cymorth a gânt
- Mae **partneriaeth** a chydweithredu'n hybu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau
- Bydd gwasanaethau'n ceisio **atal** anghenion rhag cynyddu, a bydd y cymorth iawn ar gael ar yr adeg iawn

Datblygwyd y ddogfen hon gan CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru mewn cydweithrediad â phartneriaid ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru ar sail amlasiantaethol ac mewn ymgynghoriad â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Bwriad y ddogfen yw rhoi arweiniad i weithwyr proffesiynol i egluro ym mha amgylchiadau i atgyfeirio plant a'u teuluoedd am gymorth ar draws sbectrwm o angen, gan adeiladu ar gryfderau teuluoedd a chanlyniadau personol.

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r canlynol:

- Y gwahanol lefelau o gyflwyno angen a chryfderau ar draws y sbectrwm o Gymorth Cyffredinol i Gymorth Amddiffynnol, gan roi arweiniad i'r trothwyon angen gan gydnabod bod sefyllfaoedd ac amgylchiadau'r plant yn gallu amrywio ar draws y sbectrwm angen, a dylid defnyddio crebwyll proffesiynol mewn partneriaeth â'r teulu.
- Y diffiniad cyfreithiol o'r meini prawf cymhwysedd i gael Gofal a Chymorth fel yr amlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Siart llif atodol ar y broses o ddefnyddio Gofal a Chymorth yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
- Gwybodaeth ac arweiniad atodol mewn perthynas â'r Triongl Asesu a'r Ymchwil i PNPau (Iechyd Cyhoeddus Cymru)

Llofnodwyd gan:
Jake Morgan
Cadeirydd Bwrdd Gweithredol CYSUR

Framwaith Cymorth Cywir ar yr Adeg Gywir



CYMORTH CYFFREDINOL

Rhianta

Gofal Sylfaenol, Diogelwch ac Amddiffyniad
- Rhieni/gofalwyr yn gallu darparu gofal priodol i anghenion y plentyn

Cynhesrwydd Emosiynol a Sefydlogrwydd
- Rhieni/gofalwyr yn darparu rhianta sefydlog, sicr a gofalgar

Arweiniad, Ffiniau ac Ysgogiad
- Rhieni/gofalwyr yn darparu arweiniad a ffiniau sy'n briodol i'w oedran

Ffactorau Teuluol, Cymdeithasol ac Amgylcheddol

Hanes Teuluol a Llesiant
- Perthnasoedd teuluol cefnogol, ffrindiau a rhwydweithiau eraill

Tai, Cyflogaeth a Chyllid
- Y plentyn yn cael cefnogaeth ariannol lawn
- Cael yr holl fudd-daliadau lles cymwys
- Tai digonol

Adnoddau Cymdeithasol a Chymunedol
- Rhwydweithiau cymdeithasol a chyfeillgarwch cadarnhaol
- Amgylchedd diogel a sicr
- Mynediad at weithgareddau rheolaidd a chadarnhaol

Anghenion Datblygiadol y Plentyn neu'r Person Ifanc

Dysgu/Addysg
- Presenoldeb yn yr ysgol/coleg/hyfforddiant ar lefel briodol
- Plentyn yn cael cyfle i gyrraedd ei lawn botensial
- Dim yn rhwystro dysgu
- Cyswllt cadarn rhwng y cartref a'r ysgol
- Cymorth priodol i blant sy'n cael addysg yn y cartref o ddewis
- Dim pryderon am ddatblygiad gwybyddol

Iechyd
- Cael gwasanaethau iechyd cyffredinol
- Diet digonol a maethlon, gofal deintyddol ac optegol rheolaidd
- Cael llesiant corfforol ac o ran iechyd meddwl
- Rheini wedi gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am imiwneiddio ac asesiadau meddygol

Cymdeithasol, Emosiynol, Ymddygiadol, Hunaniaeth
- Dangos ymatebion sy'n briodol i'w hoedran o ran teimladau, gweithredoedd a gwytnwch
- Ymlyniadau cynnar o ansawdd da, y plentyn yn gysurus mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ar lefel briodol
- Dealltwriaeth o ymddygiad gwael ac effeithiau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ar lefel sy'n briodol i'w oedran
- Gallu ymaddasu i newid
- Synnwyr cadarnhaol o'r hunan a'i alluoedd

Perthnasau Teuluol a Chymdeithasol
- Perthnasau sefydlog a chariadus gyda rhai sy'n gofalu ynghyd â brodyr/chwiorydd
- Perthnasau cadarnhaol â chyfoedion

Hunanofal ac Annibyniaeth
- Datblygu lefel o sgiliau byw ymarferol ac annibynnol sy'n briodol i'w oedran
- Lefel dda o lendid personol
- Gallu gwahaniaethu rhwng cysylltiadau 'diogel' ac 'anniogel'
- Gwybodaeth (briodol i'w oedran) am berthnasau iach, rhyw a defnydd cyson o atal cenhedlu

CYMORTH MANYLACH

Er, o bosibl, nad yw'r datganiadau hyn yn bryderus ar eu pen eu hunain – ystyriwch y cyfuniad o ffactorau mewn asesiad cyfannol

Rhianta – *ystyriwch Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (PNP)*

Gofal Sylfaenol, Diogelwch ac Amddiffyniad

- Angen cymorth i ddarparu gofal cyson, e.e. trefniadau gofal plant diogel a phriodol; amodau diogel a hylan gartref; diet digonol.
- Problemau iechyd gan y rhieni, a allai effeithio ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn oni bai fod cymorth priodol yn cael ei ddarparu
- (PNPau) Problemau iechyd meddwl gan y rhieni, a allai effeithio ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn oni bai fod cymorth priodol yn cael ei ddarparu
- Anawsterau dysgu gan y rhieni, a allai effeithio ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn oni bai fod cymorth priodol yn cael ei ddarparu
- Iechyd / anabledd y rhieni, a allai effeithio ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn oni bai fod cymorth priodol yn cael ei ddarparu
- (PNPau) Rheini'n cam-drin sylweddau, a allai effeithio ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn oni bai cymorth priodol yn cael ei ddarparu
- Cysylltiad gwael â gwasanaethau cyffredinol sy'n debygol o effeithio ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn
- Goruchwyliaeth a sylw gwan i faterion diogelwch

Cynhesrwydd Emosiynol a Sefydlogrwydd

- Angen cymorth ar gyfer rhianta cyson ynglŷn â chanmol a disgyblu, pan nad yw datblygiad y plentyn wedi cael ei amharu eto

Arweiniad, Ffiniau ac Ysgogiad

- Angen cymorth ar gyfer rhianta cyson ynglŷn â threfn a gosod ffiniau
- Diffyg arweiniad priodol gan rieni na ffiniau ar gyfer camau datblygiad ac aeddfedrwydd y plentyn
- Plentyn/person ifanc yn cael fawr ddim ysgogiad cadarnhaol er bod teganau priodol ar gael

Ffactorau Teuluol, Cymdeithasol ac Amgylcheddol

Perthnasau Teuluol a Chymdeithasol a Llesiant y Teulu

- (PNPau) Rhieni/gofalwyr ag anawsterau gyda pherthynas, a allai effeithio ar y plentyn
- Rhieni/gofalwyr yn gofyn am gyngor i reoli ymddygiad eu plentyn
- Perthnasau teuluol anodd yn effeithio ar y plant
- Y plentyn yn rhiant yn ei arddegau
- Mae gan y plentyn gyfrifoldebau gofalu a byddai'n hoffi cael cyngor a chymorth
- (PNPau) Pryderon lefel isel ynglŷn â cham-drin domestig
- (PNPau) Rhiant neu ofalwr yn y carchar
- Mae gan y rhiant brofiad o'r system gofal ac mae angen cyngor a chymorth arno/arni
- Teulu mawr gyda nifer o blant ifanc dan bum mlwydd oed ac angen cefnogaeth, cyngor a chymorth

Tai, Cyflogaeth a Chyllid

- Incwm isel / byw gyda thlodi yn effeithio ar y teulu o ran mynediad at wasanaethau priodol i ddiwallu anghenion ychwanegol y plentyn
- Incwm isel ynghyd â ffactorau niweidiol ychwanegol sy'n effeithio ar ddatblygiad y plentyn
- Tai mewn cyflwr gwael neu gormod o lawer yn byw yno
- Teulu'n methu cael cyflogaeth oherwydd prinder mawr o sgiliau sylfaenol neu anawsterau hirdymor

Integreiddiad Cymdeithasol ac Adnoddau Cymunedol

- Cyfleusterau annigonol i ddiwallu anghenion e.e. angen cyngor / cymorth i ddefnyddio gwasanaethau ar gyfer plentyn anabl pan fo'r rhiant yn ymdopi fel arall
- Y teulu angen cyngor am eithrio cymdeithasol, e.e. troseddau casineb, aflonyddu, ac anghydfodau yn y gymuned
- Y plentyn yn ymwneud â chyfoedion sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol neu'n droseddol
- Mynediad cyfyngedig at gyngor, gwybodaeth a gwasanaethau ym maes atal cenhedlu ac iechyd rhywiol
- Teulu'n arddangos lefel isel o ymddygiad gwrthgymdeithasol tuag at bobl eraill
- Rhieni/gofalwyr wedi'u heithrio'n gymdeithasol, heb fynediad at gyfleusterau lleol ac angen gwasanaethau cymorth arnynt

Anghenion Datblygiadol y Plentyn neu'r Person Ifanc

Dysgu/Addysg

- Triwantiaeth achlysurol, ddim yn mynychu neu broblemau prydlondeb
- 'Gweithredu gan yr Ysgol' neu 'Weithredu gan yr Ysgol a Mwy'
- Adnabod anawsterau iaith a chyfathrebu yn gysylltiedig ag anghenion eraill nad ydynt yn cael eu diwallu
- Diffyg cymorth digonol yn cael ei roi gan y rhiant/gofalwr i ddysgu'r plentyn
- Diffyg cyfleoedd i ddysgu ac ysgogiad sy'n briodol i'w oedran
- Cymwysterau prin neu ddim cymwysterau yn arwain at beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)
- Plentyn/person ifanc dan bwysau gormodol gan rieni i gyflawni/dyheu
- Dim dyhead ar gyfer y person ifanc
- Lefel cynnydd cyfredol y plentyn yn annigonol, er iddo gael profiadau priodol mewn addysg gynnar

Iechyd

- Problemau iechyd mynych, gan golli apwyntiadau arferol ac anarferol
- Pryderon ynglŷn â chyrraedd cerrig milltir datblygiadol
- Anafiadau damweiniol aml i'r plentyn, sydd angen triniaeth yn yr ysbyty
- Rhiant ddim yn mynd â'r plentyn i apwyntiadau rheolaidd e.e. imiwneiddiadau ac archwiliadau datblygiad
- Mân-broblemau iechyd parhaus yn effeithio ar botensial y plentyn
- Problemau iechyd meddwl neu emosiynol ar lefel isel yn gofyn am ymyriad Haen 2

Cymdeithasol, Emosiynol, Ymddygiadol, Hunaniaeth

- Ymddygiad ac agweddau gwrthgymdeithasol yn dod i'r amlwg a/neu troseddau lefel isel
- Plentyn yn dioddef bwlio neu'n bwlio pobl eraill
- Camddefnyddio sylweddau ar lefel isel (ar hyn o bryd neu'n hanesyddol)
- Hunan-barch isel
- Perthnasau cyfyngedig gyda chyfoedion/wedi'i eithrio'n gymdeithasol
- Plentyn yn sôn am redeg i ffwrdd a'r rhieni angen cyngor a chymorth
- Wedi'i atgyfeirio oherwydd troseddau lefel isel neu mewn perygl o ymddwyn yn droseddol
- Ymddygiad sy'n tarfu / heriol yn yr ysgol neu'r gymdogaeth
- Trafferthion ymddygiadol sydd angen rhagor o ymchwil / diagnosis

Hunanofal ac Annibyniaeth

- Diffyg ymddygiad sy'n briodol i'w oedran a diffyg sgiliau byw'n annibynnol, sy'n ei wneud yn fwy agored i eithrio cymdeithasol
- Gweithgaredd rhywiol yn dechrau'n gynnar (mae gweithgaredd rhywiol gan blentyn dan 16 oed yn drosedd)
- Person ifanc sy'n weithredol yn rhywiol (15+), gyda rhai ymddygiadau cymryd risg, e.e. defnydd anghyson o atal cenhedlu a pherygl o feichiogrwydd
- Lefel isel o alcohol / sylweddau (ar hyn o bryd neu'n hanesyddol)
- Peth tystiolaeth o ddefnydd peryglus o dechnoleg, gan arwain at bryderon e-ddiogelwch ar lefel isel

CYMORTH WEDI'I DARGEDU

Er, o bosibl, nad yw'r datganiadau hyn yn bryderus ar eu pen eu hunain – ystyriwch y cyfuniad o ffactorau mewn asesiad cyfannol

Rhianta – *ystyriwch Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (PNPau)*

Gofal Sylfaenol, Diogelwch ac Amddiffyniad

- (PNPau) Rhiant/gofalwr ag anawsterau iechyd meddwl sy'n cael effaith uniongyrchol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn
- (PNPau) Rhiant/gofalwr yn camddefnyddio sylweddau, sy'n cael effaith uniongyrchol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn
- Anawsterau dysgu'r rhiant yn cael effaith uniongyrchol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn
- Iechyd / anabledd rhiant yn cael effaith uniongyrchol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn
- Hanes o bryderon blaenorol ynglŷn ag amddiffyn plant

Cynhesrwydd Emosiynol a Sefydlogrwydd

- Rhiant heb fod ar gael yn emosiynol
- Cyfres o ofalwyr neu bod gan y plentyn/person ifanc lawer o ofalwyr
- Rhianta anghyson yn amharu ar ddatblygiad emosiynol ac ymddygiadol
- Ansefydlogrwydd rhiant yn effeithio ar y capasiti i feithrin
- Anghenion emosiynol y rhiant/gofalwyr ei hun yn peryglu rhai'r plentyn/person ifanc
- Diffyg ymateb i bryderon a godir am lesiant y plentyn

Arweiniad, Ffiniau ac Ysgogiad

- Rhieni/gofalwyr yn darparu ffiniau anghyson neu'n cyflwyno patrwm ymddygiad negyddol sy'n effeithio'n ddifrifol ar ddatblygiad y plentyn
- Rhiant â disgwyliadau (nad ydynt yn briodol i oedran y plentyn/person ifanc) y dylai'r plentyn fod yn hunanddibynnol
- Diffyg ymateb i bryderon a fynegir am y plentyn

Ffactorau Teuluol, Cymdeithasol ac Amgylcheddol

Perthnasau Teuluol a Chymdeithasol a Llesiant y Teulu

- (PNPau) Cam-drin domestig pan fo'r perygl i'r dioddefwr yn cael ei asesu fel risg canolig a bod y plentyn yn bresennol yn y cartref yn ystod y digwyddiad
- (PNPau) Adroddwyd ynghylch digwyddiad cam-drin domestig cychwynnol ond mae'r dioddefwr yn datgelu manylion cam-drin gyda phlant sy'n preswylio/fel arfer yn preswylio
- Plentyn yn ofalwr ifanc sydd angen asesiad o anghenion ychwanegol
- Plentyn angen asesiad ar gyfer gwasanaeth cymorth oherwydd amgylchiadau teuluol a heb ffrind priodol / gofalwr o'r teulu ar gael i'w gefnogi

Tai, Cyflogaeth a Chyllid

- Trafferthion ariannol yn effeithio ar y gallu i rianta
- Dim mynediad at gyllid/adnoddau cymunedol
- Teulu mewn perygl o gael eu troi allan ar ôl cael cymorth eisoes gan wasanaethau Tai

Adnoddau Cymdeithasol a Chymunedol

- Y plentyn neu'r teulu angen cymorth ac amddiffyniad ar unwaith oherwydd aflonyddu / gwahaniaethu, a dim cymorth lleol ganddynt
- Lefelau sylweddol o elyniaeth wedi'i anelu at y plentyn neu ei deulu, a gwrthdaro/pethau'n danllyd yn y gymdogaeth

Anghenion Datblygiadol y Plentyn neu'r Person Ifanc

Dysgu / Addysg

- Lefel cronig o beidio â bod yn bresennol/triwantiaeth/absenoldebau heb ganiatâd/gwaharddiadau cyfnod penodol
- Cytundeb Adnoddau Gweithredu gan yr Ysgol (SAPRA) neu Ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig sydd angen gwasanaeth ychwanegol
- Dim yn cael unrhyw addysg ffurfiol gartref nac yn yr ysgol

Iechyd

- Plentyn ag anabledd angen asesiad a chymorth i ddefnyddio gwasanaethau priodol
- Problemau iechyd meddwl sydd angen eu hatgyfeirio i CAMHS, gan gynnwys hunan-niweidio neu feddyliau hunanladdiad
- Diet gwael neu gyfyngedig er gwaethaf ymyriadau
- Problemau iechyd yn effeithio'n sylweddol ar ddysgu

Cymdeithasol, Emosiynol, Ymddygiadol, Hunaniaeth

- Ymddygiad y plentyn yn ei roi mewn perygl, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau ac alcohol
- Y plentyn/person ifanc yn wirioneddol allan o reolaeth yn y gymuned, un o ddangosyddion Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Hunanofal ac Annibyniaeth

- Anaf o ganlyniad o oruchwyliaeth annigonol
- Diffyg difrifol o ymddygiad sy'n briodol i'w oedran

ASESU AR GYFER GOFAL A CHYMORTH

Gofal a Chymorth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant -
Ystyriwch y Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru gyfan
Er, o bosibl, nad yw'r datganiadau hyn yn bryderus ar eu pen eu hunain – ystyriwch y cyfuniad o ffactorau mewn asesiad cyfannol

Rhianta – *ystyriwch Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (PNPau)*

Gofal Sylfaenol, Diogelwch ac Amddiffyniad

- Rhiant/gofalwr yn methu diwallu anghenion y plentyn hyd yn oed gyda chymorth ac nid yw'n darparu gofal digonol
- Pryder fod plentyn sydd heb ei eni mewn perygl o niwed sylweddol
- Esgeulustod pan fo bwyd, cynhesrwydd a hanfodion eraill yn aml heb fod ar gael, a bod cynigion blaenorol o gymorth cynnar wedi cael eu gwrthod
- (PNPau) Plentyn yn agored i gysylltiad ag unigolion sy'n achosi perygl o niwed corfforol neu rywiol i blant
- Anghenion y rhieni eu hunain yn golygu na allant gadw'r plentyn/person ifanc yn ddiogel
- (PNPau) Cynhesrwydd isel, beirniadaeth uchel yn nodwedd barhaus yn yr arddull rhianta
- (PNPau) Anghenion/profiadau emosiynol y rhiant yn effeithio'n barhaus ar ei allu i ddiwallu anghenion y plentyn/person ifanc

Cynhesrwydd Emosiynol a Sefydlogrwydd

- Plentyn (plant)/person(au) ifanc blaenorol wedi cael eu tynnu o ofal y rhiant

Arweiniad, Ffiniau ac Ysgogiad

- (PNPau) Oedolyn mewn safle o ymddiriedaeth, aelod o staff neu wirfoddolwr yn ymddwyn mewn ffordd sy'n arwain at niwed i blentyn, neu a allai ddangos ei fod yn anaddas i weithio gyda phlant

Ffactorau Teuluol, Cymdeithasol ac Amgylcheddol

Perthnasau Teuluol a Chymdeithasol a Llesiant y Teulu

- (PNPau) Asesiad yn canfod perygl o gam-drin corfforol, emosiynol, rhywiol neu esgeulustod
- (PNPau) Hanes o niwed sylweddol blaenorol i blant, gan gynnwys unrhyw bryderon am farwolaethau plant blaenorol
- (PNPau) Teulu'n cael ei nodweddu gan wrthdaro ac anawsterau difrifol, cronig mewn perthnasau
- (PNPau) Rhiant/gofalwr ag anawsterau iechyd meddwl heb eu datrys, sy'n effeithio ar lesiant y plentyn
- Gofalwr y plentyn wedi'i gyfeirio at Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg
- (PNPau) Aelodau o'r teulu ehangach yn hysbys am fod yn berygl i blant, neu'n cael ei hamau o hynny
- Angen gofalu am y plentyn y tu allan i'w deulu uniongyrchol neu rieni/gofalwyr oherwydd cam-drin / esgeulustod
- Plentyn yn cael ei faethu'n breifat
- Plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches
- Plentyn yn destun adroddiad llys a orchmynnwyd i gael ei gwblhau gan ofal cymdeithasol plant
- Asesiad cyn-geni pan fo hanes o bryderon amddiffyn plant yn y gorffennol
- (PNPau) Perygl o berthnasoedd teuluol yn torri i lawr, gan arwain at angen gofalu am y plentyn y tu allan i rwydwaith y teulu ac mewn trefniant maethu preifat
- Rhieni/gofalwyr yn methu neu'n anfodlon parhau i ofalu am y plentyn ac nid oes trefniant addas ar gael gyda theulu/ffrindiau

Tai, Cyflogaeth a Chyllid

- Plentyn digartref angen llety, gan gynnwys rhai 16-17 mlwydd oed

Anghenion Datblygiadol y Plentyn neu’r Person Ifanc

Dysgu / Addysg

- Y plentyn ddim yn ymgysylltu’n sylweddol mewn addysg, ynghyd â phryderon am ddiogelwch y plentyn

Iechyd

- Rhieni/gofalwr yn gwrthod cydnabod na mynd i’r afael â lefel uchel o anabledd, problemau corfforol a/neu emosiynol difrifol
- Oedi difrifol wrth gyrraedd cerrig milltir corfforol a datblygiadol eraill, gan godi pryderon sylweddol
- Rhieni heb fod yn blaenoriaethu apwyntiadau i blant sydd â phroblemau iechyd a allai fygwth eu bywyd neu sy’n wanhaol ac angen rheolaeth feddygol, e.e. diabetes, asthma a phroblemau iechyd meddwl

Cymdeithasol, Emosiynol, Ymddygiadol, Hunaniaeth

- Plentyn â lefel o ymddygiad rhywioledig anesboniadwy ac amhriodol
- Plentyn mewn perygl o wynebu cam-fanteisio rhywiol neu baratoi i bwrpas rhyw
- Plentyn ar goll o gartref a chodwyd pryderon am ei ddiogelwch corfforol ac emosiynol a’i lesiant
- Methiant neu anallu i fynd i’r afael â phroblemau iechyd meddwl cymhleth, sydd angen ymyriadau arbenigol
- Pobl ifanc yn profi niwed cyfredol oherwydd eu bod yn defnyddio sylweddau
- Pobl ifanc â phroblemau cymhleth o ran camddefnyddio sylweddau, sydd angen ymyriadau penodol
- Tystiolaeth o gamddefnyddio sylweddau’n gyson/aml, a allai gyfuno â ffactorau risg eraill
- Tystiolaeth o ddefnyddio sylweddau’n cynyddu ac o agweddau’n newid a diystyru risg
- Torri cyrffyw / gorchymyn yn barhaus, gydag ymddygiadau eraill sy’n golygu cymryd risg, ac sy’n effeithio ar lesiant a diogelwch y plentyn
- Yn aml yn mynd ar goll o gartref
- Methiant neu anallu i fynd i’r afael ag ymddygiad difrifol (ail)droseddu, sy’n arwain at berygl o niwed difrifol i’w hun neu bobl eraill

Hunanofal ac Annibyniaeth

- Plentyn wedi’i weld yn crwydro heb oruchwyliaeth ddigonol
- Disgwyl i’r plentyn fod yn hunanddibynnol am ei anghenion sylfaenol ei hun neu rai brodyr/chwiorydd, a hynny y tu hwnt i’w alluoedd, gan ei roi mewn risg posibl
- Hunanddelwedd wyrgam, a allai effeithio’n sylweddol ar lesiant
- Pryderon e-ddiogelwch, gyda thystiolaeth o baratoi i bwrpas rhyw neu ddelweddau anweddus
- Plentyn â sylweddau anghyfreithlon yn ei feddiant, neu’n eu defnyddio

CYMORTH AMDDIFFYNNOL

Gofal a Chymorth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
– *ystyriwch Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru gyfan*
Er, o bosibl, nad yw'r datganiadau hyn yn bryderus ar eu pen eu hunain – ystyriwch y cyfuniad o ffactorau mewn asesiad cyfannol

Rhianta – *ystyriwch Broblemau Niweidiol yn ystod Plentyndod (PNPau)*

Gofal Sylfaenol, Diogelwch ac Amddiffyniad

- Rhieni/gofalwyr yn methu gofalu am y plentyn
- (PNPau) Rhieni/gofalwyr wedi neu efallai wedi cam-drin/esgeuluso'r plentyn/person ifanc
- Asesiad cyn-geni yn dangos bod y plentyn sydd heb ei eni mewn perygl o niwed sylweddol
- (PNPau) Rhiant yn methu cyfyngu ar fynediad i'r cartref gan oedolion sy'n hysbys am fod yn risg i blant ac oedolion eraill
- (PNPau) Y plentyn/person ifanc yn cael ei adael yng ngofal oedolyn sy'n hysbys am fod yn berygl i blant, neu'n cael ei amau o hynny, neu sy'n byw yn yr un tŷ â'r plentyn
- (PNPau) Rhiant/gofalwr â phroblemau iechyd meddwl, gan gynnwys ymddygiad hunan-niweidiol sy'n golygu risg o niwed sylweddol i'r plentyn
- (PNPau) Rhiant/gofalwr yn camddefnyddio sylweddau'n golygu perygl o niwed sylweddol i'r plentyn
- Anawsterau dysgu'r rhieni'n golygu risg o niwed sylweddol i'r plentyn
- Iechyd / anabledd rhiant yn golygu perygl o niwed sylweddol i'r plentyn

Cynhesrwydd Emosiynol a Sefydlogrwydd

- (PNPau) Creulondeb bwriadol neu gamdriniaeth emosiynol i blentyn, gan arwain at niwed sylweddol
- (PNPau) Plentyn yn wastad yn destun sylwadau negyddol a beirniadaeth, neu'n cael ei ddefnyddio fel bwch dihangol gan y rhiant/gofalwr, gan arwain at deimladau o hunanwerth a hunan-barch isel ac effeithio'n ddifrifol ar ddatblygiad emosiynol a seicolegol y plentyn.

Arweiniad, Ffiniau ac Ysgogiad

- Diffyg goruchwyliaeth briodol sy'n arwain at niwed sylweddol i blentyn
- Plentyn yn cael cyfrifoldebau sy'n amhriodol i'w oedran / lefel aeddfedrwydd, gan arwain at niwed sylweddol i'r plentyn

Ffactorau Teuluol, Cymdeithasol ac Amgylcheddol

Perthnasau Teuluol a Chymdeithasol a Llesiant y Teulu

- (PNPau) Oedolyn sy'n ddioddefwr Cam-drin Domestig yn cael ei asesu â risg lefel uchel, a'r plentyn (gan gynnwys os yw heb ei eni) mewn perygl o niwed sylweddol

Tai, Cyflogaeth a Chyllid

- Amodau hylendid yn y cartref yn golygu perygl amgylcheddol / iechyd difrifol i blant

Anghenion Datblygiadol y Plentyn neu'r Person Ifanc

Iechyd

- Gofalwyr yn gwrthod gofal meddygol, gan beryglu bywyd/datblygiad
- Plentyn ddim yn cael gofal meddygol priodol, sy'n ei roi mewn perygl uniongyrchol o niwed sylweddol
- Pryderon fod y plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed o ganlyniad i salwch wedi'u ffugio neu ei achosi gan bobl eraill
- Haint a drosglwyddwyd yn rhywiol mewn plentyn dan 13 oed
- Plentyn â phroblemau iechyd cronig neu lefel uchel o anabledd a allai/na allai gael ei gynnal mewn lleoliad prif ffrwd gyda chymorth ychwanegol
- Amheuir bod y plentyn wedi dioddef anafiadau a achoswyd neu anafiadau difrifol anesboniadwy
- Pydredd dannedd sylweddol heb ei drin

Cymdeithasol, Emosiynol, Ymddygiadol, Hunaniaeth

- Ymddygiad heriol yn arwain at risg difrifol i'r plentyn a phobl eraill
- Plentyn/person ifanc y tu hwnt i reolaeth y rhiant – dianc o gartref yn gyson ac yn ei roi ei hun mewn perygl o niwed sylweddol
- Dan 13 oed yn cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol
- Agored i gam-fanteisio'n rhywiol dan 18 oed
- Ar goll o gartref am gyfnodau byr yn fynych neu am gyfnodau hir

Hunanofal ac Annibyniaeth

- Plentyn yn cael ei adael "gartref ar ei ben ei hun" heb oruchwyliaeth ddigonol gan oedolyn ac mewn perygl o niwed sylweddol
- Diffyg sgiliau byw'n annibynnol, gan arwain at niwed sylweddol

Atodiad 1:

Yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

<u>Meini Prawf Cymhwysedd ar gyfer Gofal a Chymorth</u>

Cynhelir asesiad cymesur o angen, sy'n ystyried y canlynol:

1. Canlyniadau personol (plant):
    - Gallu i gyflawni arferion domestig
    - Gallu i gyfathrebu
    - Amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod
    - Ymglymiad mewn gwaith, addysg, dysgu neu mewn gweithgareddau hamdden
    - Cynnal neu ddatblygu perthnasau teuluol neu rai personol eraill o bwys
    - Datblygu a chynnal perthnasau cymdeithasol ac ymglymiad yn y gymuned
    - Cyrraedd nodau datblygiadol
2. Rhwystrau rhag cyflawni canlyniadau personol
3. Risgiau rhag cyflawni canlyniadau personol
4. Cryfderau a galluoedd

A oes modd diwallu'r angen a ganfuwyd drwy ddangos y ffordd i wasanaethau ataliol neu drwy ffordd arall?

- Os oes, nid yw'r plentyn yn gymwys.
- Os nad oes, neu os oes angen amddiffyniad ar y plentyn, mae'n gymwys.

Siart Llif Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant[1] yn ymwneud â'r Ddeddfwriaeth:



[1] https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/hub-downloads/Siart_lif_____Sut_i_gael_mynediad_ar_ofal_a_chymorth.pdf

Atodiad 2:

Triongl Fframwaith Asesu



Mae pob plentyn yn newid ac yn datblygu dros amser. Mae gan rieni gyfrifoldeb i ymateb i anghenion y plentyn. Pwrpas y triongl asesu yw eich helpu i ganfod meysydd o gryfder a meysydd o angen datblygu, a hynny er mwyn eich cynorthwyo i benderfynu a oes angen gwybodaeth, cyngor neu gymorth a/neu ofal a chefnogaeth ar y plentyn/person ifanc i gael safon resymol o ddatblygiad neu i atal amhariad sylweddol ar ei iechyd a'i ddatblygiad.

Er, o bosibl, nad yw'r datganiadau hyn yn bryderus ar eu pen eu hunain, mae angen ystyried y cyfuniad o ffactorau mewn asesiad cyfannol. Mae'n bwysig ystyried y cryfderau yn ogystal â'r anawsterau.

Atodiad 3:

Darn o Iechyd Cyhoeddus Cymru[2] - Dolen



[2] http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/88518

Trefniadau Ardal Leol a Mapio Gwasanaethau

Dylai'r profforma enghreifftiol isod gael ei lenwi gan y Timau Diogelu gyda'u trefniadau Ardal Awdurdod Lleol a mapio gwasanaethau:

Gwasanaethau Cyffredinol	Cymorth Uwch	Cymorth wedi'i Dargedu	Asesiad ar gyfer Gofal a Chymorth	Cymorth Amddiffynol
Meddygon Teulu	Dechrau'n Deg	Ymwelydd Iechyd Diogelu Arbenigol Dechrau'n Deg	Gwasanaethau Haen 3 ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau	Timau Amddiffyn Plant a Diogelu Gofal Cymdeithasol
Bydwreigiaeth	Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau	Timau Iechyd Arbenigol ym maes Diogelu	Gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal	Unedau Damweiniau ac Achosion Brys
Ymwelwyr Iechyd	Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	Bydwraig Arbenigol ym maes Diogelu	Gofal Cymdeithasol – Gwasanaethau Plant	Heddlu
Nyrsio Cymunedol	Tîm o Amgylch y Teulu	Tîm o Amgylch y Teulu	Arweinwyr Diogelu mewn Ysgolion	Gwasanaeth Prawf
Ysbytai	Tîm Ymyrraeth Teuluoedd (FIT)	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)	Timau Cyfiawnder Ieuenctid	
Deintyddion	Llwybrau Newydd/Gweithffyrdd – Cymorth gyda Chyflogaeth	Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau	Unedau Heddlu, Pobl Fregus	
Gofal Plant	Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA)	Lloches / Llety Diogel	Gwasanaeth Prawf	
Canolfannau Teuluol	Opsiynau ar gyfer Digartrefedd	Gwasanaethau Cwnsela		
Budd-daliadau, Gwasanaethau Ariannol	Cymorth i Ddioddefwyr	Arweinwyr Diogelu mewn Ysgolion		
Tai	Gwasanaethau Ieuenctid	Gwasanaethau Ieuenctid		
Cymorth i Ddioddefwyr	Heddlu	Heddlu		
Cyngor ar Bopeth	Gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf	Gwasanaethau Eiriolaeth		
Addysg	Gwasanaethau Generig ar gyfer Cymorth Cymunedol	Gofalwyr Ifanc		
Gwasanaethau Ieuenctid	Gwasanaethau Anabledd	Cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol		
Heddlu	Gwasanaethau Eiriolaeth			
Grwpiau Cymdeithasol Cymunedol	Cefnogi Pobl – cymorth tenantiaeth			
Nyrsio mewn ysgolion				